

CYNGOR SIR YNYS MÔN

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:	Ystyried Cais am Ganiatâd Arbennig
Dyddiad y gwnaed y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:	22/09/2026
Enwau'r unigolion fydd yn cael ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:	Yr Ymgeisydd, y Cynghorydd Douglas Fowle, Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:ss	10/05/2027 (ar y pedwerydd diwrnod yn dilyn tymor presennol y Cynghorydd yn y swydd).

Yn unol â pharagraffau (ch) a (dd) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu **rhoi caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd Douglas Fowle mewn perthynas â'r buddiannau hynny y cyfeirir atynt yn y [Cais](#) ar dudalen 1 sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion ac aelodau am y mater;
- siarad â swyddogion am y mater, ar yr amod bod nodyn yn cael ei wneud o unrhyw drafodaethau o'r fath;
- siarad am y mater mewn unrhyw gyfarfod;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth ar y mater a thra bod pleidlais yn cael ei chynnal, ond peidio â phleidleisio ar y mater;

Cyn i'r Cynghorydd siarad â swyddogion y Cyngor neu ysgrifennu atynt, neu siarad ar y mater mewn cyfarfodydd, rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi'i roi er mwyn galluogi'r Cynghorydd siarad ar y mater; a
- cwblhau'r datganiad i'r Swyddog Pwyllgor/Gweinyddwr y cyfarfod yn nodi'r diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Trwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

Llofnod: Mr Trefor Owen, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Cadeirydd y Panel Caniatâd Arbennig.

Dyddiad: 22/09/2026